## ATODLEN 1

Rheoliad 2(1)

### Gwybodaeth am Deithiwr

**1.** Manylion personol—

(a) enw llawn,

(b) rhyw,

(c) dyddiad geni,

(d) rhif pasport, neu gyfeirnod **[**[F1]dogfen**]** deithio (fel y bo'n briodol), y dyddiad dyroddi a'r dyddiad y daw'r pasport neu'r ddogfen i ben a'r awdurdod dyroddi,

(e) rhif ffôn,

(f) cyfeiriad cartref,

(g) cyfeiriad e-bost.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn Atod. 1 para. 1(d) wedi ei amnewid (15.6.2020 am 5.38 p.m.) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595), rhlau. 1(3), **10(2)(h)** (ynghyd â rhl. 11)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**2.** Manylion y daith—

(a) os yn gymwys, cyfeiriad mangre addas yng Nghymru y mae'r person yn bwriadu preswylio ynddi fel sy'n ofynnol gan reoliad 7(3),

(b) os yn gymwys, cyfeiriad mangre addas yn y Deyrnas Unedig y mae P yn bwriadu preswylio ynddi fel sy'n ofynnol gan ddarpariaeth gyfatebol mewn Rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon,

(c) dyddiad y bydd y person yn cyrraedd y cyfeiriad a bennir yn is-baragraff (a) neu (b), neu'r dyddiad y mae'n bwriadu cyrraedd, fel y bo'n briodol,

(d) y gweithredwr y mae'r person yn teithio gydag ef, neu wedi teithio gydag ef, neu'r gweithredwr a ddefnyddiodd y person i archebu'r daith,

(e) cyfeirnod yr archeb deithio,

(f) rhif yr hediad, rhif y trên, neu rif y tocyn (fel y bo'n briodol),,

(g) enw unrhyw grŵp teithio trefnedig y mae'r person yn teithio neu wedi teithio gydag ef,

(h) y lleoliad yn y Deyrnas Unedig y bydd y person yn ei gyrraedd, neu'r lleoliad yn y Deyrnas Unedig y mae wedi ei gyrraedd,

(i) y wlad y mae'r person yn teithio drwyddi, neu wedi ymadael ohoni,

**[**[F2](ia) unrhyw wlad neu diriogaeth arall y bydd P ynddi, neu y mae P wedi bod ynddi, yn ystod y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae P yn cyrraedd y Deyrnas Unedig, neu y mae'n bwriadu cyrraedd y Deyrnas Unedig,

(ib) pan fo is-baragraff (ia) yn gymwys, y dyddiadau yr oedd P yn y wlad neu'r diriogaeth arall neu y bydd P yn y wlad neu'r diriogaeth arall,**]**

(j) y dyddiad a'r amser y bydd y person yn cyrraedd y Deyrnas Unedig neu y mae'n bwriadu ei chyrraedd, fel y bo'n briodol,

(k) a yw'r person yn teithio drwy'r Deyrnas Unedig fel rhan o siwrnai gysylltu i gyrchfan y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac, os felly—

(i) lleoliad y man y bydd y person yn ymadael â'r Deyrnas Unedig,

(ii) y wlad sy'n gyrchfan terfynol y person,

(iii) enw'r gweithredwr y mae'r person yn teithio gydag ef ar y daith sy'n dilyn, neu'r gweithredwr a ddefnyddiodd y person i archebu'r daith sy'n dilyn,

(iv) cyfeirnod archeb deithio'r daith sy'n dilyn,

(v) rhif yr hediad, rhif y trên, neu rif y tocyn (fel y bo'n briodol) ar gyfer y daith sy'n dilyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Atod. 1 para. 2(ia)(ib) wedi ei fewnosod (10.7.2020) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714), rhlau. 1(2), **4(7)** (ynghyd â rhl. 7)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**3.** A yw'r person sy'n darparu gwybodaeth am deithiwr yn gwneud hynny ar ran person arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**4.** Pan fo'r person yn teithio gyda phlentyn y mae ganddo gyfrifoldeb amdano—

(a) enw llawn a dyddiad geni'r plentyn hwnnw,

(b) perthynas y teithiwr â'r plentyn hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**5.** Enw llawn a rhif ffôn cyswllt brys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Sch. 1 para. 3A Sch. 1 para. 3 renumbered as Sch. 1 para. 3A by S.I. 2021/867 reg. 4
- Sch. 1 para. 2(ea) inserted by S.I. 2020/1191 reg. 5(2)(b)
- Sch. 1 para. 2(k)(vi) inserted by S.I. 2020/1191 reg. 5(2)(f)
- Sch. 1 para. 3 inserted by S.I. 2021/154 reg. 12
- Sch. 1 para. 3 inserted by S.I. 2021/863 reg. 13
- Sch. 1 para. 2(e) omitted by S.I. 2021/1212 reg. 10
- Sch. 1 para. 2(k)(iv) omitted by S.I. 2021/1212 reg. 10
- Sch. 1 para. 2(g) omitted by S.I. 2021/72 reg. 3(2)
- Sch. 1 para. 3 omitted by S.I. 2021/72 reg. 3(2)
- Sch. 1 para. 5 omitted by S.I. 2021/72 reg. 3(2)
- Sch. 1 para. 2(ia) word substituted by S.I. 2020/1477 reg. 2(a)(iv)
- Sch. 1 para. 2(e) words substituted by S.I. 2020/1191 reg. 5(2)(a)
- Sch. 1 para. 2(f) words substituted by S.I. 2020/1191 reg. 5(2)(c)
- Sch. 1 para. 2(k)(iv) words substituted by S.I. 2020/1191 reg. 5(2)(d)
- Sch. 1 para. 2(k)(v) words substituted by S.I. 2020/1191 reg. 5(2)(e)
- Sch. 1 para. 3 words substituted by S.I. 2021/584 reg. 12(a)
- Sch. 1 para. 3 words substituted by S.I. 2021/584 reg. 12(b)
- Regulations revoked by S.I. 2022/126 reg. 1(3)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**

Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- Sch. 1B para. 2(aa)-(ac) substituted for Sch. 1B para. 2(a) by S.I. 2021/584 reg. 13(b)
- Sch. 2 Pt. 1 para. 5 inserted by S.I. 2021/154 reg. 13(2)
- Sch. 2 Pt. 2 para. 5 omitted by S.I. 2021/154 reg. 13(3)
- Sch. 4 para. 14(i)(j) inserted by S.I. 2020/1191 reg. 4(5)
- reg. 2A(3)(c)(iv) and word inserted by S.I. 2021/1109 reg. 4(2)(b)
- reg. 6AB(1)(c)(ai) inserted by S.I. 2021/863 reg. 5(2)
- reg. 9(2)(aa)(bb) substituted for reg. 9(2)(a) by S.I. 2021/1291 reg. 6(2)(a)
- reg. 12A(7)(ii) substituted by S.I. 2020/1288 reg. 2(2)(b)(i) (Amendment to Welsh text only)
- reg. 12E(2)(d)(ia) inserted by S.I. 2021/361 reg. 4(2)(a)
- reg. 12E(2)(d)(iaa) inserted by S.I. 2021/454 reg. 10(2)
- reg. 12E(2)(d)(ia)-(id) substituted for reg. 12E(2)(d)(ia) by S.I. 2021/646 reg. 2(2)
- reg. 14(1)(h)(i) inserted by S.I. 2021/154 reg. 8(a)(iii)
- reg. 17(2)(a)(iii)(bb) words omitted by S.I. 2021/1063 reg. 6(2)(b)
- reg. 17(2)(a)(iii)(bb) words substituted by S.I. 2021/584 reg. 11(a)(ii)(aa)
- reg. 17(2)(a)(iii)(bb) words substituted by S.I. 2021/584 reg. 11(a)(ii)(bb)
- reg. 17(2)(a)(iii)(dd) words substituted by S.I. 2021/584 reg. 11(a)(iii)